CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 2506 (Cy.224)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae cyllideb ysgolion unigol awdurdod addysg lleol i'w rhannu rhwng yr ysgolion y mae'n eu cynnal ar ffurf cyfrannau cyllideb ar gyfer pob ysgol. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu'r sail y caiff awdurdod addysg lleol ei defnyddio, am unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar ôl 31 Mawrth 2005, i benderfynu'r swm o'i gyllideb ysgolion unigol sydd i'w ddyrannu i bob ysgol fel ei chyfran o'r gyllideb am flwyddyn ariannol.

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol yn rheoliad 3, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ar 1 Ebrill 2005 Reoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 (i'r graddau nad ydynt wedi'u dirymu o'r blaen) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2000; Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001; Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2002 a Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod addysg lleol ddyrannu'r cyfan o'i gyllideb ysgolion unigol am flwyddyn ariannol fel cyfrannau cyllideb ysgolion y mae'n eu cynnal.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r penderfyniad cychwynnol ar gyfran cyllideb ysgol gael ei wneud cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y bydd yn gymwys ynddi. Caniateir i awdurdod addysg lleol ddal ei afael ar swm o'r gyllideb ysgolion unigol er mwyn ailbenderfynu'r gyfran honno neu gywiro gwallau.

Mae rheoliad 6 yn nodi pryd ac â phwy y mae'n rhaid

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 2506 (W.224)

EDUCATION, WALES

The Schools Budget Shares (Wales) Regulations 2004

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

A local education authority's individual schools budget is to be divided between the schools which they maintain in the form of budget shares for each school. These Regulations provide the basis on which, for any financial year beginning after 31 March 2005, a local education authority may determine the amount from their individual schools budget to be allocated to each school as its budget share for a financial year.

Subject to transitional provisions in regulation 3, these Regulations revoke on 1 April 2005 the Financing of Maintained Schools Regulations 1999 (to the extent not previously revoked) as amended by the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2000; the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2001; the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2002 and the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2003.

Regulation 4 requires a local education authority to allocate all of its individual schools budget for a financial year as the budget shares of schools which they maintain.

Regulation 5 requires the initial determination of a school's budget share to take place before the beginning of the financial year in which it will apply. A local education authority is permitted to retain an amount of the individual schools budget for redetermination or correction of errors.

Regulation 6 indicates when and who the local

i'r awdurdod addysg lleol ymgynghori ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ffactorau a'r meini prawf neu'r dulliau, egwyddorion a rheolau a oedd wedi'u mabwysiadau yn eu fformwla.

education authority must consult about any proposed changes to the factors and criteria or the methods, principles and rules which were adopted in their formula.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod addysg lleol benderfynu'r fformwla sydd i'w defnyddio i benderfynu cyfrannau cyllideb ysgolion yn y flwyddyn ariannol o ystyried y ffactorau, y meini prawf a'r gofynion yn y Rheoliadau.

Regulation 7 requires the local education authority to determine the formula to be used in determining schools' budget shares in the financial year having regard to the factors, criteria and requirements in the Regulations.

Mae rheoliad 8 yn disgrifio o dan ba amgylchiadau y mae rhaid i awdurdod addysg lleol gymryd i ystyriaeth yn ei fformwla niferoedd y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion. Nid yw'r gofyniad yn cynnwys disgyblion dros oedran ysgol gorfodol na phlant mewn lleoedd sydd wedi'u cadw ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

Regulation 8 describes the circumstances in which a local education authority must take into account in their formula the numbers of registered pupils at the schools. The requirement does not include pupils over compulsory school age or children in places reserved for special educational needs.

Mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un ysgol.

Regulation 9 makes provision for pupils registered at more than one school.

Mae rheoliad 10 yn galluogi awdurdod addysg lleol i wneud darpariaethau yn ei fformwla ynglŷn â phenderfynu cyfrannau cyllideb ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion â lleoedd sydd wedi'u cadw ar gyfer plant ag anghenion addysg arbennig.

Regulation 10 enables a local education authority to make provisions in their formula in relation to determining budget shares for special schools and schools with places reserved for children with special educational needs.

Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod addysg lleol gynnwys ffactorau neu feini prawf yn ei fformwla ar gyfer didynnu o'i gyllideb ysgolion wariant cynlluniedig sy'n ymwneud ag ysgolion o ddisgrifiad penodol.

Regulation 11 requires a local education authority to include factors or criteria in their formula in respect of deductions from their schools budget of planned expenditure relating to schools of a particular description.

Mae rheoliad 12 yn rhagwahardd awdurdod addysg lleol rhag gwneud darpariaeth yn ei fformwla sy'n gwahaniaethu rhwng ysgolion yn ôl eu categori ac eithrio pan fo'n gyfiawn i wneud hynny oherwydd gwahaniaethau yn swyddogaethau cyrff llywodraethu ysgolion o wahanol gategorïau.

Regulation 12 precludes a local education authority from making provision in their formula which discriminate between schools by reference to their category except where it is justified by differences in the functions of the governing bodies of schools of different categories.

Mae rheoliad 13 yn galluogi awdurdod addysg lleol o dan amgylchiadau penodedig i gymryd i ystyriaeth y ffactorau neu'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn wrth benderfynu cyfrannau cyllideb ar gyfer ysgolion. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdod addysg lleol gymryd i ystyriaeth yn ei fformwla ar gyfer penderfynu cyfrannau cyllideb ffactor neu ffactorau a seiliwyd ar fynychder amddifadedd cymdeithasol ymhlith disgyblion.

Regulation 13 enables a local education authority in specified circumstances to take into account the factors or criteria set out in the Schedule to these Regulations in determining budget shares for schools. A local education authority is also required to take account in their formula in determining budget shares a factor or factors based on the incidence of social deprivation among pupils.

Mae rheoliad 14 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyllido disgyblion dros oedran ysgol gorfodol. Wrth ddarparu cyfrannau cyllideb mae'n ofynnol i awdurdod addysg lleol gynnwys swm a ddyrannwyd yn unol ag amodau'r grant sy'n daladwy gan y Cyngor Cenedlaethol o dan adran 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

Regulation 14 makes provision for the funding of pupils over compulsory school age. In providing budget shares the local education authority is required to include a sum allocated in accordance with the conditions of grant payable by the National Council under s36 of the Learning and Skills Act 2000.

Mae rheoliad 15 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod addysg lleol ailbenderfynu cyfran cyllideb ysgol uwchradd pan fo'r Cyngor Cenedlaethol yn hysbysu o ddiwygiad i'r grant a benderfynwyd o'r blaen.

Regulation 15 requires the local education authority to redetermine a secondary school's budget share where the National Council notifies a revision in the grant previously determined.

Mae rheoliad 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod addysg lleol addasu cyfrannau cyllideb er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau yn y niferoedd o ddisgyblion cofrestredig a newid mewn data eraill yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Rhaid i'r awdurdod addysg lleol gynnwys ffactorau neu ofynion yn ei fformwla i fodloni gofynion y rheoliad.

Regulation 16 requires the local education authority to make budget share adjustments to take account of changes to numbers of registered pupils and change to other data in the preceding financial year. The local education authority must include factors or requirements in their formula to satisfy the requirements of the regulation.

Mae rheoliad 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod addysg lleol gynnwys ffactorau neu feini prawf yn ei fformwla i'w alluogi i benderfynu cyfran cyllideb ysgol pan fo ad-drefniad penodedig o'r ysgol wedi digwydd neu pan fydd yn digwydd.

Regulation 17 requires the local education authority to include factors or criteria in their formula to enable them to determine a school's budget share where specified reorganisation of the school has occurred or will take place.

Mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod addysg lleol gynnwys ffactorau neu feini prawf yn ei fformwla i ailbenderfynu cyfran cyllideb ysgol os yw'n dymuno cymryd i ystyriaeth newidiadau penodedig i nifer y disgyblion a newidiadau eraill.

Regulation 18 requires the local education authority to include factors or criteria in their formula to redetermine a school's budget share if they wish to take account of specified changes to pupil numbers and other changes.

Mae rheoliad 19 yn darparu fformwlâu sydd i'w defnyddio i ailbenderfynu cyfran cyllideb ysgol pan fo disgybl wedi'i wahardd yn barhaol o ysgol.

Regulation 19 provides formulae to be used to redetermine a school's budget share where a pupil is permanently excluded from a school.

Mae rheoliad 20 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod addysg lleol sicrhau wrth benderfynu cyfrannau cyllideb fod ei fformwla yn darparu bod o leiaf 70 y cant o swm ei gyllideb ysgolion unigol yn cael ei ddyrannu mewn un neu ragor o'r dulliau penodedig.

Regulation 20 requires the local education authority to ensure that in determining budget shares their formula provides that at least 70 per cent of the amount which is their individual schools budget is allocated in one or more of the specified manners.

Mae rheoliad 21 yn galluogi awdurdod addysg lleol i ailbenderfynu cyfran cyllideb ysgol am y flwyddyn ariannol honno er mwyn cywiro gwall.

Regulation 21 enables a local education authority to redetermine a school's budget share for that financial year to correct an error.

Mae rheoliad 22 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi'r awdurdod addysg lleol i benderfynu neu ailbenderfynu cyfrannau cyllideb yn unol â threfniadau cymeradwy a fyddai'n disodli gofynion y Rheoliadau.

Regulation 22 enables the National Assembly to authorise the local education authority to determine or redetermine budget shares in accordance with approved arrangement that supersede the requirements of the Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 2506 (Cy.224)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud	*21 Medi 2004*
Yn dod i rym	*30 Medi 2004*

TREFN Y RHEOLIADAU

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso.

2. Dehongli.

3. Dirymu a darpariaethau trosiannol.

4. Dyrannu cyllideb ysgolion unigol.

5. Amseriad penderfyniad cychwynnol ar gyfrannau cyllideb.

6. Ymgynghori.

7. Y fformwla ar gyfer penderfynu cyfrannau cyllideb.

8. Niferoedd disgyblion.

9. Niferoedd disgyblion : Cofrestru deuol.

10. Lleoedd.

11. Ysgolion o ddisgrifiad penodol.

12. Cyllid gwahaniaethol.

13. Ffactorau neu feini prawf ychwanegol.

14. Cyllid ar gyfer disgyblion dros oedran ysgol gorfodol.

15. Diwygio grant y Cyngor Cenedlaethol.

16. Addasu cyfran o'r gyllideb.

17. Ad-drefnu ysgol.

18. Ailbenderfynu cyfrannau cyllideb.

19. Disgyblion a waharddwyd neu a dderbyniwyd ar ôl gwaharddiad.

20. Canran o gyllid "sy'n cyfeirio at niferoedd disgyblion".

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 2506 (W.224)

EDUCATION, WALES

The Schools Budget Shares (Wales) Regulations 2004

Made	*21 September 2004*
Coming into force	*30 September 2004*

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

1. Name, commencement and application.

2. Interpretation.

3. Revocation and transitional provisions.

4. Allocation of individual schools budget.

5. Timing of initial determination of budget shares.

6. Consultation.

7. Formula for determination of budget shares.

8. Pupil numbers.

9. Pupil numbers : Dual registration.

10. Places.

11. Schools of a particular description.

12. Differential funding.

13. Additional factors or criteria.

14. Funding for pupils over compulsory school age.

15. Revision of National Council grant.

16. Budget share adjustments.

17. School re-organisation.

18. Redetermination of budget shares.

19. Pupils excluded or admitted following an exclusion.

20. Percentage of "pupil-led" funding.

21. Cywiro gwallau.

22. Trefniadau ychwanegol a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr Atodlen — Ffactorau neu feini prawf ychwanegol y caniateir eu cymryd i ystyriaeth mewn fformwla awdurdod addysg lleol o dan reoliad 13

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 47 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 30 Medi 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys at ddibenion ariannu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar ôl 31 Mawrth 2005.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "blwyddyn ariannol flaenorol" ("*preceding financial year*") yw'r flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol o dan sylw;

ystyr "blwyddyn ariannol o dan sylw" ("*financial year in question*") yw'r flwyddyn ariannol y mae cyfrannau cyllideb ysgolion a gynhelir yn cael eu penderfynu ar eu cyfer;

ystyr "y Cyngor Cenedlaethol" ("*the National Council*") yw Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant(**c**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**ch**);

21. Correction of errors.

22. Additional arrangements approved by the National Assembly.

Schedule — Additional factors or criteria which may be taken into account in a local education authority formula under regulation 13.

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 47 and 138(7) and (8) of the School Standards and Framework Act 1998(**a**) and now vested in the National Assembly for Wales(**b**), the National Assembly for Wales hereby makes the following Regulations:

Name, commencement and application

1.-(1) These Regulations are called the Schools Budget Shares (Wales) Regulations 2004 and come into force on 30 September 2004.

(2) These Regulations apply for the purpose of the financing of maintained schools in Wales in respect of any financial year beginning after 31 March 2005.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996(**c**);

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998;

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Learning and Skills Act 2000(**d**);

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002(**e**);

"the 1999 Regulations" ("*Rheoliadau 1999*") mean the Financing of Maintained Schools Regulations 1999(**f**);

"the 2003 Regulations" ("*Rheoliadau 2003*") mean the LEA Budget, Schools Budget and Individual Schools Budget (Wales) Regulations 2003(**g**)

(a) 1998 p.31; i gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 142(1).

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) Sefydlwyd y Cyngor Cenedlaethol gan adran 30 o Ddeddf 2000.

(ch) 1996 p.56.

(a) 1998 c.31; for the meaning of "prescribed" and "regulations" *see* section 142(1).

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1996 c.56.

(d) 2000 c.21.

(e) 2002 c.32.

(f) S.I.1999/101 amended by S.I. 2000/911 (W.40), 2001/495 (W. 22), 2002/136(W.19) and 2003/538 (W.75).

(g) S.I.2003/3118(W.296).

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000(**a**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**b**);

ystyr "dosbarth meithrin" ("*nursery class*") yw dosbarth sy'n cael addysg amser-llawn neu ran-amser sy'n addas yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol;

ystyr "Rheoliadau 1999" ("*the 1999 Regulations*") yw Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999(**c**);

ystyr "Rheoliadau 2003" ("*the 2003 Regulations*") yw Rheoliadau Cyllidebau AALl, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003(**ch**);

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol gymunedol arbennig neu ysgol sefydledig arbennig neu ysgol feithrin a gynhelir.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad (sut bynnag y mae wedi'i eirio) at ysgol feithrin a gynhelir, ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig, yn cynnwys ysgol newydd (o fewn ystyr adran 72(3) o Ddeddf 1998) a fydd, ar ôl gweithredu cynigion ar gyfer sefydlu'r ysgol o dan unrhyw ddeddfiad, yn ysgol o'r fath ac yn un a chanddi gorff llywodraethu dros dro.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at gorff llywodraethu yn cynnwys corff llywodraethu dros dro ar ysgol newydd sy'n dod o fewn paragraff (2).

(4) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at ysgol gynradd neu ysgol uwchradd yn golygu ysgol gynradd neu uwchradd sydd (neu a fydd) yn ysgol gymunedol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol.

(5) Yn y Rheoliadau hyn nid yw cyfeiriad (sut bynnag y mae wedi'i eirio) at ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yn cynnwys ysgolion nad ydynt yn ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir ym mharagraff (1).

(6) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at wahardd disgybl yn barhaol yn gyfeiriad at waharddiad parhaol y disgybl fel y'i diffinnir o dro i dro at ddibenion adran 494 o Ddeddf 1996(**d**).

"financial year in question" ("*blwyddyn ariannol o dan sylw*") means the financial year in respect of which maintained schools' budget shares are being determined;

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") means a community, foundation or voluntary school or a community or foundation special school or a maintained nursery school;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"the National Council" ("*y Cyngor Cenedlaethol*") means the National Council for Education and Training for Wales(**a**)

"nursery class" ("*dosbarth meithrin*") means a class undergoing full-time or part-time education wholly or mainly suitable for children who have not attained compulsory school age;

"preceding financial year" ("*blwyddyn ariannol flaenorol"*) means the financial year preceding the financial year in question.

(2) In these Regulations a reference (however framed) to a maintained nursery school, a community, foundation or voluntary school or a community or foundation special school includes a new school (within the meaning of section 72(3) of the 1998 Act) which on implementation of proposals for the establishment of the school under any enactment will be such a school and which has a temporary governing body.

(3) In these Regulations a reference to a governing body includes the temporary governing body of a new school falling within paragraph (2).

(4) In these Regulations a reference to a primary or secondary school means a primary or secondary school which is (or will be) a community, foundation or voluntary school.

(5) In these Regulations a reference (however framed) to schools maintained by a local education authority does not include schools which are not maintained schools as defined in paragraph (1).

(6) In these Regulations a reference to the permanent exclusion of a pupil is a reference to the pupil's permanent exclusion as defined from time to time for the purposes of section 494 of the 1996 Act(**b**).

(a) 2000 p.21.

(b) 2002 p.32.

(c) O.S. 1999/101 a ddiwygiwyd gan O.S. 2000/911 (Cy.40), 2001/495 (Cy. 22), 2002/136 (Cy.19) a 2003/538 (Cy.75).

(ch) O.S. 2003/3118 (Cy.296).

(d) Amnewidiwyd adran 494 gan baragraff 128 o Atodlen 30 i Ddeddf 1998.

(a) The National Council was established by section 30 of the 2000 Act.

(b) Section 494 was substituted by paragraph 128 of Schedule 30 to the 1998 Act.

(7) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i'r geiriau neu'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac a nodir isod yn y paragraff hwn yr ystyron a roddwyd iddynt gan y darpariaethau a bennir -

addysg feithrin (*nursery education*):

adran 117 o Ddeddf 1998;

anghenion addysgol arbennig (*special educational needs*):

adran 312(1) o Ddeddf 1996;

blwyddyn ariannol (*financial year*):

adran 579(1) o Ddeddf 1996;

blwyddyn ysgol (*school year*):

adran 579(1) o Ddeddf 1996(**a**);

cyfnod allweddol (*key stage*):

adran 103 o Ddeddf 2002;

cyfran o'r gyllideb (*budget share*):

adran 47 (1) o Ddeddf 1998;

cyllideb ddirprwyedig (*delegated budget*):

adran 49(7) o Ddeddf 1998;

cyllideb ysgolion (*schools budget*):

adran 45A(2) o Ddeddf 1998;

cyllideb ysgolion unigol (*individual schools budget*):

adran 45A(3) o Ddeddf 1998(**b**);

fformwla (*formula*):

rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn;

ysgol feithrin (*nursery school*):

adran 6(1) o Ddeddf 1996(**c**).

(8) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn a rifwyd felly ac mae cyfeiriad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff a rifwyd felly yn y rheoliad neu'r Atodlen lle mae'r cyfeiriad yn ymddangos.

(7) Unless the context otherwise requires, words or expressions used in these Regulations set out below in this paragraph have the meanings given to them by the provisions specified -

budget share (*cyfran o'r gyllideb*):

section 47(1) of the 1998 Act;

delegated budget (*cylllideb ddirprwyedig*):

section 49(7) of the 1998 Act;

financial year (*blwyddyn ariannol*):

section 579(1) of the 1996 Act;

formula (fformwla):

regulation 7 of these Regulations;

individual schools budget (*cyllideb ysgolion unigol*):

section 45A(3) of the 1998 Act(**a**);

key stage (*cyfnod allweddol*):

section 103 of the 2002 Act;

nursery school (*ysgol feithrin*):

section 6(1) of the 1996 Act(**b**);

nursery education (*addysg feithrin*):

section 117 of the 1998 Act;

school year (*blwyddyn ysgol*):

section 579(1) of the 1996 Act(**c**);

schools budget (*cyllideb ysgolion*):

section 45A(2) of the 1998 Act;

special educational needs (*anghenion addysgol arbennig*):

section 312(1) of the 1996 Act.

(8) Unless the context otherwise requires, a reference in these Regulations to a numbered regulation is a reference to the regulation of these Regulations so numbered and a reference to a numbered paragraph is a reference to the paragraph so numbered in the regulation or Schedule in which the reference appears.

(a) Mewnosodwyd gan Ddeddf Addysg 1997 (p.44), Atodlen 7, paragraff 43.

(b) Mewnosodwyd adran 45A gan adran 41(1) o Ddeddf 2002 (O.S. 2003/2961 (Cy. 278)).

(c) Diwygiwyd adran 6(1) gan adran 156(1) o Ddeddf 2002.

(a) Section 45A was inserted by section 41(1) of the 2002 Act (S.I. 2003/2961 (W.278)).

(b) Section 6(1) is amended by section 156(1) of the 2002 Act.

(c) Inserted by the Education Act 1997 (c.44), Schedule 7, paragraph 43.

Dirymu a darpariaethau trosiannol

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) ac i'r graddau y maent yn gymwys yng Nghymru, dirymir Rheoliadau 1999 (i'r graddau nad ydynt wedi'u dirymu eisoes(**a**)), Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2000(**b**), Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001(**c**), Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2002(**ch**) a Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003(**d**) o 1 Ebrill 2005 ymlaen.

(2) Er gwaethaf paragraff (1), caniateir i gyfran cyllideb ysgol gael ei hailbenderfynu o dan Reoliadau 1999, yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2005, os yw'r ailbenderfyniad hwnnw yn gwneud darpariaeth ar gyfer -

(a) disgyblion a waharddwyd yn barhaol neu a dderbyniwyd ar ôl gwaharddiad parhaol; neu

(b) cywiro gwallau, p'un ai mewn cyfrif neu ddata, o dan unrhyw un o ddarpariaethau Rheoliadau 1999.

(3) Er gwaethaf paragraff (1), mae Rhan IV (Cynlluniau) o Reoliadau 1999 ac Atodlen 5 iddynt yn parhau mewn grym.

Dyrannu cyllideb ysgolion unigol

4.-Rhaid i awdurdod addysg lleol ddyrannu ym mhob blwyddyn ariannol, yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn, y cyfan o'i gyllideb ysgolion unigol am y flwyddyn ariannol honno fel cyfrannau cyllideb ysgolion y mae'n eu cynnal.

Amseriad penderfyniad cychwynnol ar gyfrannau cyllideb

5.-(1) Rhaid i swm cyfran cyllideb ysgol am flwyddyn ariannol gael ei benderfynu i gychwyn gan yr awdurdod addysg lleol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol honno.

(a) Dirymwyd rheoliadau 2, 3 a 5 o Reoliadau 1999, ac Atodlen 2 iddynt, ar 1 Ebrill 2004 gan Reoliadau 2003.

(b) O.S. 2000/911 (Cy.40).

(c) O.S. 2001/495 (Cy.22).

(ch) O.S. 2002/136 (Cy.19).

(d) O.S. 2003/538 (Cy.75).

Revocation and transitional provisions

3.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3) and to the extent they apply in Wales, the 1999 Regulations (so far as not already revoked(**a**)), the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2000(**b**), the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2001(**c**), the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2002(**d**) and the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2003(**e**) are revoked from 1 April 2005.

(2) Notwithstanding paragraph (1), a school's budget share may be redetermined under the 1999 Regulations, in the financial year beginning on 1 April 2005, if such redetermination makes provision for -

(a) pupils permanently excluded or admitted following permanent exclusion; or

(b) the correction of errors, whether in calculation or data, under any of the provisions of the 1999 Regulations.

(3) Notwithstanding paragraph (1), Part IV (Schemes) and Schedule 5 to the 1999 Regulations remain in force.

Allocation of individual schools budget

4.-A local education authority must allocate in each financial year, in accordance with the following provisions of these Regulations, all of their individual schools budget for that financial year as the budget shares of schools which they maintain.

Timing of initial determination of budget shares

5.-(1) The amount of a school's budget share for a financial year must be initially determined by the local education authority before the beginning of that financial year.

(a) Regulations 2, 3 and 5 of, and Schedule 2, to the 1999 Regulations were revoked on 1 April 2004 by the 2003 Regulations.

(b) S.I. 2000/911 (W.40).

(c) S.I. 2001/495 (W.22).

(d) S.I. 2002/136 (W.19).

(e) S.I. 2003/538 (W.75).

(2) Ar y cychwyn nid oes rhaid i awdurdod addysg lleol ddyrannu'r cyfan o'i gyllideb ysgolion unigol ar ffurf cyfrannau o'r gyllideb ar ddechrau blwyddyn ariannol, ac yn lle hynny caniateir iddo ddal ei afael ar swm ar gyfer ailbenderfyniadau neu gywiro gwallau ond rhaid i'r swm hwnnw gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw neu gael ei ddosbarthu i ysgolion yn unol â gofynion rheoliad 18(4) cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

(2) A local education authority need not initially allocate all of their individual schools budget in the form of budget shares at the beginning of a financial year, and may instead retain an amount for the purpose of redeterminations or the correction of errors but such amount must be used for that purpose or distributed to schools as required by regulation 18(4) before the end of that financial year.

Ymgynghori

6.-(1) Yn ychwanegol at ymgynghori â'r fforwm ysgolion ar gyfer ei ardal(**a**), rhaid i awdurdod addysg lleol ymgynghori â chorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol y mae'n ei chynnal am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ffactorau a'r meini prawf a gymerwyd i ystyriaeth, neu'r dulliau, yr egwyddorion a'r rheolau a fabwysiadwyd yn ei fformwla o dan Reoliadau 1999 neu'r Rheoliadau hyn yn y flwyddyn ariannol flaenorol (gan gynnwys unrhyw ffactorau, meini prawf, dulliau, egwyddorion neu reolau newydd).

Consultation

6.-(1) In addition to consulting the schools forum for their area(**a**), a local education authority must consult the governing body and head teacher of every school which they maintain about any proposed changes to the factors and criteria which were taken into account, or the methods, principles and rules which were adopted in their formula under the 1999 Regulations or these Regulations in the preceding financial year (including any new factors, criteria, methods, principles or rules).

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys i newidiadau sy'n cael eu gwneud yn unol â rheoliadau 5(2), 15, 18(3) neu 19.

(2) Paragraph (1) shall not apply to changes made pursuant to regulations 5(2), 15, 18(3) or 19.

(3) Rhaid bod ymgynghori o dan y rheoliad hwn yn digwydd mewn digon o amser i ganiatáu i'r canlyniad gael ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu fformwla'r awdurdod ac wrth wneud penderfyniad cychwynnol ar gyfrannau cyllideb ysgolion cyn dechrau'r flwyddyn ariannol o dan sylw.

(3) Consultation under this regulation must take place in sufficient time to allow the outcome to be taken into account in the determination of the authority's formula and in the initial determination of schools' budget shares before the beginning of the financial year in question.

(4) Rhaid i awdurdod addysg lleol hysbysu pob un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy o ganlyniad yr ymgynghori.

(4) A local education authority must inform all those who were consulted of the outcome of the consultation.

(5) Ceir bodloni'r gofyniad i ymgynghori ym mharagraff (1), ynglŷn â newidiadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2005, drwy ymgynghoriad sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2004 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(5) The requirement to consult in paragraph (1), in relation to changes proposed for the financial year beginning on 1 April 2005, may be satisfied by consultation which takes place during the financial year beginning on 1 April 2004 before the coming into force of these Regulations.

Y fformwla ar gyfer penderfynu cyfrannau cyllideb

7.-(1) Rhaid i awdurdod addysg lleol benderfynu cyn dechrau blwyddyn ariannol, ac ar ôl yr ymgynghori y cyfeiriwyd ato yn rheoliad 6, y fformwla y byddant yn ei defnyddio i benderfynu cyfrannau cyllideb ysgolion yn y flwyddyn ariannol honno gan roi sylw i'r ffactorau, y meini prawf a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn.

Formula for determination of budget shares

7.-(1) A local education authority must determine before the beginning of a financial year, and after the consultation referred to in regulation 6, the formula which they will use to determine schools' budget shares in that financial year having regard to the factors, criteria and requirements set out in these Regulations.

(2) Rhaid i awdurdod addysg lleol roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol i fformwla o'r fath fod yn syml, yn wrthrychol, yn fesuradwy, yn rhagweladwy o ran ei heffaith ac wedi'i mynegi'n glir.

(2) A local education authority must have regard to the desirability of such a formula being simple, objective, measurable, predictable in effect and clearly expressed.

(a) Cafodd y fforymau ysgolion eu sefydlu gan reoliad 2 o Reoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003 (O.S. 2003/2909 (Cy.275)).

(a) The schools forums were established by regulation 2 of the Schools Forums (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/2909 (W.275)).

(3) Ni chaiff awdurdod addysg lleol ddefnyddio ffactorau na meini prawf yn ei fformwla sy'n cymryd i ystyriaeth, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, unrhyw swm a ddyrannwyd i'r ysgol o unrhyw grant a dalwyd i'r awdurdod gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Cyngor Cenedlaethol.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 22 (trefniadau ychwanegol a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol), rhaid i awdurdod addysg lleol ddefnyddio'r fformwla a benderfynwyd o dan baragraff (1) ym mhob penderfyniad ac ailbenderfyniad ar gyfrannau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

Niferoedd disgyblion

8.-(1)Wrth benderfynu cyfrannau cyllideb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ac ysgolion meithrin, rhaid i awdurdod addysg lleol gymryd i ystyriaeth yn ei fformwla nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion hynny ar unrhyw ddyddiad neu ddyddiadau a benderfynir gan yr awdurdod, a'r niferoedd hynny wedi'u pwysoli os yw'r awdurdod yn credu ei bod yn briodol yn unol â pharagraff (8).

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw nifer y disgyblion cofrestredig yn cynnwys-

(a) disgyblion y mae grant yn daladwy ar eu cyfer i'r awdurdod gan y Cyngor Cenedlaethol o dan adran 36 o Ddeddf 2000;

(b) disgyblion mewn lleoedd y mae'r awdurdod yn cydnabod eu bod wedi'u cadw ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu (ac eithrio pan fo'r awdurdod addysg lleol yn dewis peidio ag arfer ei ddisgresiwn o dan reoliad 10 mewn perthynas â phlant mewn dosbarthiadau meithrin) ar gyfer plant mewn dosbarthiadau meithrin.

(3) Pan fo'r awdurdod yn penderfynu un dyddiad yn unig at ddibenion paragraff (1), rhaid iddo fod yn ddyddiad sy'n dod -

(a) cyn 1 Ebrill yn y flwyddyn ariannol o dan sylw; a

(b) yn y flwyddyn ysgol y mae 1 Ebrill, yn y flwyddyn ariannol o dan sylw, yn dod ynddi.

(4) Pan fo'r awdurdod yn penderfynu ar fwy nag un dyddiad at ddibenion paragraff (1), yna -

(a) rhaid i un o'r dyddiadau hynny fodloni paragraff (3);

(b) o ran y dyddiad arall neu'r dyddiadau eraill -

(i) ni chaiff unrhyw ddyddiad fod yn gynt na dechrau'r flwyddyn ysgol y mae 1 Ebrill, yn y flwyddyn ariannol o dan sylw, yn dod ynddi, a

(ii) caiff yr awdurdod benderfynu dyddiad neu ddyddiadau sydd yn y dyfodol ac amcangyfrif nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y dyddiad hwnnw neu'r dyddiadau hynny.

(3) A local education authority may not use factors or criteria in their formula which make an allowance, in whole or in part, for any amount allocated to the school from any grant paid to the authority by the National Assembly or the National Council.

(4) Subject to regulation 22 (additional arrangements approved by the National Assembly) a local education authority must use the formula determined under paragraph (1) in all determinations and redeterminations of budget shares in respect of that financial year.

Pupil numbers

8.-(1) In determining budget shares for primary and secondary schools and nursery schools, a local education authority must take into account in their formula the number of registered pupils at those schools on such date or dates as may be determined by the authority, weighted if the authority consider it appropriate in accordance with paragraph (8).

(2) For the purposes of paragraph (1), the number of registered pupils does not include-

(a) pupils in respect of whom grant is payable to the authority by the National Council under section 36 of the 2000 Act;

(b) pupils in places which the authority recognise as reserved for children with special educational needs or (except where the local education authority chooses not to exercise their discretion under regulation 10 in respect of children in nursery classes) for children in nursery classes.

(3) Where the authority determine only one date for the purposes of paragraph (1) it must be a date which falls -

(a) before 1 April in the financial year in question; and

(b) in the school year in which 1 April in the financial year in question falls.

(4) Where the authority determine more than one date for the purposes of paragraph (1) then -

(a) one of those dates must satisfy paragraph (3);

(b) as respects the other date or dates -

(i) no date may be earlier than the beginning of the school year in which 1 April in the financial year in question falls, and

(ii) the authority may determine a date or dates which are in the future and estimate the number of registered pupils at the school on that date or those dates.

(5) Nid yw paragraffau (4) a (5) yn gymwys i ddisgyblion mewn dosbarthiadau meithrin neu ddosbarthiadau derbyn y mae'r awdurdod yn eu cymryd i ystyriaeth o dan baragraff (1).

(6) Caiff awdurdod, wrth benderfynu cyfrannau cyllideb ar gyfer ysgolion arbennig, neu ar gyfer ysgolion cynradd neu uwchradd gyda lleoedd y mae'r awdurdod yn eu cydnabod fel rhai sydd wedi'u cadw ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu ar gyfer plant mewn dosbarthiadau meithrin, gymryd i ystyriaeth yn ei fformwla -

(a) nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion arbennig hynny; neu

(b) nifer y disgyblion yn y lleoedd hynny sydd wedi'u cadw mewn ysgolion cynradd neu uwchradd,

ar unrhyw ddyddiad neu ddyddiadau a benderfynir gan yr awdurdod (a'r cyfrannau hynny wedi'u pwysoli os yw'r awdurdod yn credu ei bod yn briodol yn unol â pharagraff (8)).

(7) Os yw'r awdurdod yn amcangyfrif nifer y disgyblion cofrestredig mewn ysgol yn unol â pharagraff (4)(b), rhaid iddo ymgynghori â phennaeth yr ysgol.

(8) Caiff awdurdod addysg lleol bwysoli niferoedd disgyblion yn ôl unrhyw un neu bob un o'r ffactorau canlynol -

(a) oedran, gan gynnwys pwysoliad yn ôl cyfnod allweddol neu grŵp blwyddyn;

(b) a yw disgybl yn cael addysg feithrin gan ysgol;

(c) yn achos disgyblion o dan bump oed, eu hunion oedran wrth gael eu derbyn i'r ysgol;

(ch) yn achos disgyblion o dan bum oed, yr oriau y maent yn bresennol;

(d) anghenion addysgol arbennig;

(dd) a yw disgybl mewn ysgol hefyd yn mynychu sefydliad o fewn y sector addysg bellach; ac

(e) a yw disgybl yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

(9) Rhaid i awdurdod addysg lleol gynnwys darpariaeth yn ei fformwla a fyddai'n ei alluogi i addasu nifer y disgyblion cofrestredig a ddefnyddir i benderfynu cyfran cyllideb ysgol pan fo'n briodol gwneud hynny er mwyn cymryd i ystyriaeth, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, waharddiad parhaol disgybl o'r ysgol neu dderbyn disgybl yn dilyn gwaharddiad parhaol y disgybl hwnnw o ysgol arall a gynhelir gan awdurdod addysg lleol.

(5) Paragraphs (4) and (5) do not apply in relation to pupils in nursery or reception classes whom the authority take into account under paragraph (1).

(6) An authority may, in determining budget shares for special schools, or for primary or secondary schools with places which the authority recognise as reserved for children with special educational needs or for children in nursery classes, take into account in their formula -

(a) the number of registered pupils at those special schools; or

(b) the number of pupils in those reserved places at primary or secondary schools,

on such date or dates as may be determined by the authority (weighted if the authority consider it appropriate in accordance with paragraph (8)).

(7) If the authority estimate the number of registered pupils at a school in accordance with paragraph (4)(b) they must consult the head teacher of the school.

(8) A local education authority may weight pupil numbers according to any or all of the following factors -

(a) age, including weighting according to key stage or year group;

(b) whether a pupil is provided with nursery education by a school;

(c) in the case of pupils aged under five, their exact age when admitted to the school;

(d) in the case of pupils aged under five, hours of attendance;

(e) special educational needs;

(f) whether a pupil at a school is also attending an institution within the further education sector; and

(g) whether a pupil is being educated through the medium of Welsh.

(9) A local education authority must include provision in their formula enabling them to adjust the number of registered pupils used to determine a school's budget share where it is appropriate to do so in order to take into account, wholly or partly, the permanent exclusion of a pupil from the school or the admission of a pupil following that pupil's permanent exclusion from another school maintained by a local education authority.

Niferoedd Disgyblion: Cofrestru Deuol

9. Pan fo disgybl, yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 434 o Ddeddf 1996(**a**), yn ddisgybl cofrestredig mewn mwy nag un ysgol, yna rhaid trin y disgybl hwnnw fel un sy'n ddisgybl amser-llawn ym mhob ysgol o'r fath oni bai bod yr awdurdod yn darparu'n bendant fel arall yn ei fformwla.

Lleoedd

10. Wrth benderfynu cyfrannau cyllideb ar gyfer -

(a) ysgolion arbennig;

(b) ysgolion cynradd neu uwchradd gyda lleoedd y mae'r awdurdod yn cydnabod eu bod wedi'u cadw ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig;

(c) ysgolion cynradd gyda lleoedd y mae'r awdurdod yn cydnabod eu bod wedi'u cadw ar gyfer plant mewn dosbarth meithrin; neu

(ch) ysgolion meithrin a gynhelir,

caiff awdurdod addysg lleol gymryd i ystyriaeth yn ei fformwla nifer y lleoedd y mae'n dymuno eu hariannu yn yr ysgolion arbennig hynny, yn achos paragraff (a), neu nifer y lleoedd ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig yn achos paragraffau (b), (c) ac (ch) ac ym mhob achos caiff gymryd i ystyriaeth yr anghenion addysgol arbennig o dan sylw.

Ysgolion o ddisgrifiad penodol

11. Pan fo awdurdod addysg lleol yn didynnu o'i gyllideb ysgolion wariant cynlluniedig sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir o ddisgrifiad penodol, rhaid iddynt gynnwys ffactorau neu feini prawf yn eu fformwla ar gyfer y gwariant cynlluniedig hwnnw mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir nad ydynt yn dod o fewn y disgrifiad hwnnw.

Cyllid gwahaniaethol

12. Rhaid i awdurdod addysg lleol beidio â defnyddio yn ei fformwla unrhyw ffactorau neu feini prawf sy'n gwahaniaethu rhwng ysgolion yn ôl eu categori o dan Ddeddf 1998 ac eithrio lle bo gwahaniaethau yn swyddogaethau cyrff llywodraethu ysgolion o wahanol gategorïau yn cyfiawnhau gwahaniaethu o'r fath.

Ffactorau neu feini prawf ychwanegol

13.-(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 11 a 12, caiff awdurdod addysg lleol, wrth benderfynu cyfrannau cyllideb ar gyfer ysgolion y mae'n eu cynnal, gymryd i ystyriaeth yn ei fformwla, fel y mae'n credu ei bod yn

(a) Y Rheoliadau perthnasol, ar y dyddiad y mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud, yw Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 (O.S. 1995/2089) sy'n parhau mewn grym yn rhinwedd paragraff 1 o Atodlen 39 i Ddeddf 1996. O.S. 1997/2624 ac O.S. 2001/1109 yw'r offerynnau diwygio.

Pupil Numbers: Dual Registration

9. Where a pupil is, in accordance with regulations made under section 434 of the 1996 Act(**a**), a registered pupil at more than one school then that pupil must be treated as being a full-time pupil at each such school unless the authority expressly provide otherwise in their formula.

Places

10. In determining budget shares for -

(a) special schools;

(b) primary or secondary schools with places which the authority recognise as reserved for children with special educational needs;

(c) primary schools with places which the authority recognise as reserved for children in a nursery class; or

(d) maintained nursery schools,

a local education authority may take into account in their formula the number of places which they wish to fund at those special schools, in the case of paragraph (a), or the number of places for children with special educational needs in the case of paragraphs (b), (c) and (d) and in all cases may take account of the special educational needs in question.

Schools of a particular description

11. Where a local education authority deduct from their schools budget planned expenditure which relates to maintained schools of a particular description, they must include factors or criteria in their formula in respect of that planned expenditure, in relation to maintained schools which do not fall within that description.

Differential funding

12. A local education authority must not use in their formula any factors or criteria which discriminate between schools by reference to their category under the 1998 Act except where differences in the functions of the governing bodies of schools of different categories justifies such discrimination.

Additional factors or criteria

13.-(1) Subject to regulations 11 and 12, a local education authority may, in determining budget shares for schools which they maintain, take into account in their formula, as they consider appropriate, any or all

(a) The relevant Regulations, as at the date these Regulations are made, are the Education (Pupil Registration) Regulations 1995 (S.I. 1995/2089) which remain in force by virtue of paragraph 1 of Schedule 39 to the 1996 Act. Amending instruments are S.I. 1997/2624 and S.I. 2001/1109.

briodol, unrhyw un neu bob un o'r ffactorau neu'r meini prawf a nodir yn yr Atodlen, fel y darperir ar ei gyfer yn yr Atodlen.

(2) Rhaid i awdurdod addysg lleol, wrth benderfynu cyfrannau cyllideb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd y mae'n eu cynnal, gymryd i ystyriaeth yn ei fformwla ffactor neu ffactorau a seiliwyd ar fynychder amddifadedd cymdeithasol ymhlith disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol o'r fath.

